**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Eirwen Williams
Director
Menter a Busness

23 Ionawr 2024

Ymchwiliad y Pwyllgor: Cyswllt Ffermio

Annwyl Eirwen

Y llynedd cytunodd y Pwyllgor y byddai ei raglen waith ar gyfer y gwanwyn yn cynnwys edrych ar Gyswllt Ffermio a sut y bydd yn cefnogi'r gwaith o roi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar waith. Ar ôl gwahodd swyddogion Cyswllt Ffermio i roi tystiolaeth lafar, mae'n ymddangos bod y broses dendro ar gyfer y contract newydd, a'r ymgynghoriad sy'n mynd rhagddo ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn ffactorau yn amseriad y gwaith hwn.

Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu bwrw ymlaen i geisio barn amrywiaeth o randdeiliaid ffermio ac amgylcheddol ar Gyswllt Ffermio yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror, ond bydd yn ceisio tystiolaeth lafar gan y rhai sy'n cyflawni'r contract yn ddiweddarach, unwaith y bydd y broses dendro wedi'i chwblhau.

Er fy mod yn sylweddoli na fydd eich sefydliad am ragfarnu unrhyw gais yn y dyfodol y gallech fod yn bwriadu ei wneud ar gyfer y rownd nesaf o gontractau Cyswllt Ffermio, er mwyn helpu i lywio ein gwaith byddai'r Pwyllgor yn awyddus i glywed eich barn a'ch profiad o weithrediad Cyswllt Ffermio ar hyn o bryd, yn enwedig eich rhyngweithio â ffermwyr, unrhyw beth sy'n rhwystro eich gwaith, ac unrhyw beth yr hoffech ei weld yn newid yn y rownd dendro nesaf.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Pwyllgor gael ymateb mewn pryd i lywio'r sesiynau sydd wedi'u cynllunio gyda rhanddeiliaid, h.y. erbyn diwedd y dydd ddydd Llun 5 Chwefror.

Rydw i hefyd wedi ysgrifennu at Lantra yn gofyn am eu barn.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg